**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**1 GORFFENNAF 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Treffynnon, Ffordd Parc-y-Fron, Treffynnon, ddydd Llun, 1 Gorffennaf 2019.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Marion Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Paul Johnson, Tudor Jones, Brian Lloyd, Mike Reece, Ralph Small, Martin White, Andy Williams, a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Carol Ellis

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Christine Jones a Patrick Heesom

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau, y Cynghorydd Dave Hughes, Aelod Cabinet Tai, Prif Swyddog (Tai ac Asedau), a Swyddog Cyllid Corfforaethol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 10. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorwyr Paul Johnson a Tudor Jones gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu â'r eitemau canlynol:

Eitem 6: Trosglwyddo Ased Cymunedol Canolfan Hamdden Treffynnon.

## 11. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 12. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol er mwyn ei hystyried. Tynnodd sylw at yr eitemau a drefnwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor i'w gynnal ar 9 Medi 2019.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo;

(b) Rhoi awdurdod i’r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y cynnydd a wnaed o ran cwblhau’r camau gweithredu sy'n weddill yn cael ei nodi.

## 13. GWASANAETH TELEDU CYLCH CAEËDIG Y CYNGOR A GWASANAETH AR Y CYD Â WRECSAM

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad i roi gwybod i’r Aelodau am gynigion i gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn perthynas â chyfuno gwasanaeth monitro teledu cylch caeedig Cyngor Sir y Fflint â'r gwasanaeth yn Wrecsam.

Darparodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir gan ddweud bod yr adroddiad yn ystyried nifer o opsiynau o ran gosod teledu cylch caeedig fel y nodwyd yn yr adroddiad. Byddai ail-leoli’r gwasanaeth teledu cylch caeedig i Wrecsam yn darparu gwasanaeth teledu cylch caeedig ar y cyd sy’n cael ei reoli gan Wrecsam. Byddai Sir y Fflint yn dal yn gyfrifol am gostau ffibr a chynnal a thrwsio camerâu. Mae cyfleuster Wrecsam yn Nhŵr Rhydfudr yn fodern gyda chynllun sydd yn rhagweld partneriaid ychwanegol. Byddai’r dewis i uno gwasanaethau yn darparu gwytnwch ac yn rheoli costau'n fwy effeithiol.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad, mewn perthynas â gwasanaeth teledu cylch caeedig y Cyngor a’r angen am newid. Esboniodd bod nifer o fanteision ychwanegol a ellid eu datblygu o fabwysiadu dull ar y cyd â Wrecsam, yn cynnwys darparu gwasanaeth cadw allwedd a gwasanaeth monitro larwm.

Yn ystod trafodaeth, ymatebodd y Prif Swyddog i’r sylwadau a’r cwestiynau a godwyd gan yr Aelodau mewn perthynas â’r wybodaeth a ddarparwyd o ran y costau gwasanaeth gwirioneddol a’r costau arfaethedig a rennir rhwng yr Awdurdodau, fel sydd wedi’u hatodi i’r adroddiad. Ymatebodd y Prif Swyddog hefyd i’r cwestiynau pellach a’r pryderon a fynegwyd mewn perthynas â chostau ail-leoli, y goblygiadau o ran trefniadau staffio a thelerau ac amodau, a darpariaeth barhaus o wasanaeth teledu cylch caeedig yng Nghynghorau Tref a Chymuned. Gofynnodd y Cynghorydd Janet Axworthy bod y Pwyllgor yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf o ran goblygiadau staffio / trafodaethau. Cytunwyd y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gynnwys ar y Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol i’w ystyried yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor ymhen 6-8 mis.

Soniodd y Cynghorydd Sean Bibby am werth gwasanaethau teledu cylch caeedig i Heddlu Gogledd Cymru a gofynnodd a oedd cyfraniad ariannol yr Heddlu yn cael ei adolygu. Cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai’n rhaid codi’r mater hwn â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru. Dywedodd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam eisoes wedi codi’r mater o gyllid â Heddlu Gogledd Cymru gan nodi y byddai’n rhaid archwilio i fodel cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau teledu cylch caeedig yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Dave Wisinger fod Aelodau'r Pwyllgor yn cael cyfle i weld y cyfleuster newydd pan yn weithredol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai hyn yn cael ei drefnu drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi i'r trefniadau gael eu sefydlu yn Wrecsam.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad i uno'r swyddogaeth monitro teledu cylch caeëdig gyda Wrecsam ar ôl derbyn sicrwydd o ran parhad gwasanaeth;

(b) Bod y Pwyllgor yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf o ran goblygiadau staffio / trafodaethau gydag adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen 6/8 mis; a

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi swyddogion sy'n ystyried dechrau trafodaethau â Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd am gyfraniadau uwch i gostau teledu cylch caeedig yn y dyfodol.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**14. TROSGLWYDDO ASED CYMUNEDOL CANOLFAN HAMDDEN TREFFYNNON**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor allu adolygu cynnydd Trosglwyddo Ased Cymunedol Canolfan Hamdden Treffynnon ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2017. Darparodd wybodaeth gefndir a chyd-destun a dywedodd fod yr adroddiad yn edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol ddiweddaf, yn adolygu cynllun busnes y flwyddyn ariannol bresennol ac yn darparu'r cynllun busnes ar gyfer 2019/20 i'w ystyried.

Adroddodd y Prif Swyddog ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad, a chyfeiriodd at y targedau ar gyfer 2018/19 a'r cynllun busnes, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, sy'n nodi'r blaenoriaethau allweddol, y cynllun gweithredu a'r cynigion ariannol hyd at 2020/21.

Mynegodd y Cynghorydd David Wisinger bryderon ynghylch cost y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sy'n rhaid ei wneud ar yr adeilad.

Yn ystod y drafodaeth, soniodd yr Aelodau am y cymorth refeniw a ddarparwyd gan y Cyngor i Ganolfan Hamdden Treffynnon. Cynigodd y Cynghorydd Janet Axworthy fod y cyllid cymorth refeniw yn cael ei ddarparu tu hwnt i 2019/20 ac o bosib yn cynyddu. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Dave Mackie. Pan gafwyd pleidlais, ni chymeradwywyd hyn. Dywedodd Arweinydd y Cyngor, er ei fod yn cydnabod y gefnogaeth i ddarparu cyllid yn y dyfodol, roedd

rhaid i Aelodau fod yn ystyriol o wneud ymrwymiadau heb ystyried manylion lefelau cyllid y Cyngor ar gyfer 2020/21.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch ar ran y Pwyllgor i'r Ymddiriedolwyr a'r tîm rheoli am y cynnydd a'r llwyddiannau hyd yma a llwyddiant parhaus Canolfan Hamdden Treffynnon.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Dave Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Cynllun Busnes ar gyfer Canolfan Hamdden Treffynnon.

**15. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 am a daeth i ben am 12.55 pm)

....................................................

**Y Cadeirydd**